EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

COFNODION SEITHFED CYFARFOD AR HUGAIN
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 23 Mawrth 2023

LLEOLIAD: Swyddfeydd CGA, 10fed Llawr, Eastgate House, 35 - 43 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0AB

Yn bresennol:
Aelodau:

Angela Jardine	Sue Walker
David Williams	Berni Tyler
Rosemary Lait	Jane Setchfield
Gwawr Taylor	Kelly Edwards
Kevin Pascoe	Nicola Stubbins
Steve Drowley	Eithne Hughes
Clare Jones	

Ymddiheuriadau:
Anne Pitman

Swyddogion:

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Beverley Curtis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol *(cofnodion)*
Sioned Wyn	Swyddog Cyfathrebu CGA *(arsylwi)*

1. Croeso a materion rhagarweiniol

1.1 Croesawodd Angela Jardine (*Cadeirydd*) aelodau a swyddogion i seithfed cyfarfod ar hugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Anne Pitman.

1.3 Nododd mai dyma oedd cyfarfod olaf y Cyngor presennol a diolchodd i'r holl aelodau, yn enwedig y rhai sy'n gadael, am eu cyfraniadau yn ystod eu cyfnod yn y rôl. Atgoffodd yr aelodau a ailbenodwyd y byddai hyfforddiant sefydlu a chyfarfod cyntaf dilynol y Cyngor newydd yn cael eu cynnal ar 19 ac 20 Ebrill 2023 yn swyddfeydd CGA.

1.4 Diolchwyd i aelodau am gwblhau'r dogfennau ar gyfer y broses adolygu flynyddol. Byddai'r cyfarfodydd unigol rhwng aelodau a'r Cadeirydd yn digwydd yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 27 Mawrth 2023.

1.5 Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau sicrhau eu bod yn cyflwyno unrhyw ffurflenni hawlio teithio a chynhaliaeth heb eu cyflwyno cyn gynted â phosibl, gan fod diwedd y flwyddyn ariannol yn nesáu.

2. Datganiadau o Fuddiant

2.1 Datganodd Kelly Edwards fuddiant parhaus yn nifer o eitemau'r agenda fel un o gyflogeion Colegau Cymru.

2.2 Datganodd Steve Drowley fuddiant parhaus yn eitem agenda CGA 11/23 fel Cadeirydd ETS.

2.3 Datganodd Gwawr Taylor fuddiant yn eitem agenda CGA 06/23 fel un o gyflogeion Prifysgol Aberystwyth.

2.4 Cytunodd aelodau na fyddai'r datganiadau hyn o fuddiant yn amharu ar drafodaethau. Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau adael y cyfarfod pe byddent yn teimlo bod gwrthdaro'n codi wrth i drafodaethau fynd yn eu blaen yn ystod eitemau'r agenda. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau pellach o fuddiant.

3. Gohebiaeth ac Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw ohebiaeth yr oedd angen rhoi gwybod amdani nad oedd eisoes yn cael sylw yn eitemau'r agenda.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 17 Tachwedd 2022

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 17 Tachwedd 2022. Roedd yr aelodau'n fodlon cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

4.2 Gan ymateb i ymholiad ynghylch cofnodion y sesiwn breifat, cadarnhaodd y Cadeirydd fod nodyn ar wahân o'r drafodaeth ar yr eitem honno ar yr agenda yn cael ei gynnal gan Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) i'w drafod fel eitem barhaus yn ystod y sesiwn breifat. Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

5. Cael hysbysiad am unrhyw faterion y mae aelodau eisiau eu codi mewn perthynas â'r eitemau 'er gwybodaeth' ar yr agenda

5.1 Ni chafwyd hysbysiad am unrhyw faterion.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 24 Ionawr 2023

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol a dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i dynnu sylw'r aelodau atynt, na fyddent yn cael sylw yn nes ymlaen ar yr agenda.

6.2 Gan mai dyma gyfarfod olaf y Cyngor presennol, gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor gadarnhau bod y cofnodion yn gofnod cywir.

6.3 Gan gyfeirio at gofnod 4.3, holodd un aelod p'un a ddylai'r cofnod fod yn fwy penodol wrth amlygu'r pryderon a godwyd gan aelodau. Nododd y Prif Weithredwr fod yr eitem wedi'i

thrafod yn ystod sesiwn breifat y Cyngor, lle y gwnaed cofnodion manylach. Cytunodd y Cyngor fod cofnodi'r mater byw hwn ar lefel uchel yn briodol yn y cyd-destun hwn.

6.4 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau pellach a chymeradwyodd aelodau'r Pwyllgor y cofnodion.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 24 Ionawr 2023

7.1 Cyflwynodd Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio, y cofnodion a dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i dynnu sylw'r aelodau atynt, na fyddent yn cael sylw yn nes ymlaen ar yr agenda.

7.2 Gan mai dyma gyfarfod olaf y Cyngor presennol, gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor gadarnhau bod y cofnodion yn gofnod cywir. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau a chymeradwyodd aelodau'r Pwyllgor y cofnodion.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar 26 Ionawr 2023

8.1 Cyflwynodd Clare Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu, y cofnodion a thynnodd sylw aelodau at gofnod 7.8 yn datgan y byddai strategaeth yn gysylltiedig â balansau arian parod y Cyngor yn cael ei rhoi ar waith, yn sgil argymhelliad y Pwyllgor. Nododd hefyd AUDIT 07/23 a dywedodd fod y Pwyllgor wedi cytuno i ymestyn contract archwilwyr mewnol presennol y Cyngor am ddwy flynedd arall.

8.2 Gan mai dyma gyfarfod olaf y Cyngor presennol, gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor gadarnhau bod y cofnodion yn gofnod cywir. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau a chymeradwyodd aelodau'r Pwyllgor y cofnodion.

9. Adroddiad gan y Prif Weithredwr CGA 01/23

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar amrywiaeth o faterion nad ydynt yn cael sylw rywle arall ar yr agenda, a gwahoddodd sylwadau ac ymholiadau'r aelodau.

9.2 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff dau, dywedodd fod CGA, yn dilyn ymgynghori helaeth â staff dros nifer o fisoedd, wedi mabwysiadu polisi gweithio hybrid, gyda swyddogion yn gorfod dod i'r gweithle o leiaf dridiau'r wythnos. Lansiodd y polisi yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 27 Chwefror 2023.

9.3 O ran paragraff pedwar, gwahoddodd y Prif Weithredwr y Cadeirydd i roi diweddariad i aelodau ar broses Llywodraeth Cymru ar gyfer penodi Cyngor newydd CGA. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau iddi fod yn aelod o'r panel dewis gyda chydweithiwr o Ofal Cymdeithasol Cymru a swyddog Llywodraeth Cymru. Yn sgil y recriwtio cychwynnol, argymhellodd y panel chwe aelod i'w penodi a chytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y rhain. Cynhaliwyd ail broses recriwtio fyrrach ar gyfer y ddwy rôl a oedd yn weddill, gyda chyrff enwebu cymwys yn cael eu gwahodd i gynnig ymgeiswyr a'r Gweinidog yn awyddus i wella amrywiaeth ethnig y Cyngor yn ystod y cylch hwn. Cytunodd y panel dewis nad oedd yr un o'r ceisiadau a gafwyd o'r broses recriwtio hon wedi bodloni'r trothwy felly ni roddwyd yr un ymgeisydd ar y rhestr fer. Roedd trafodaethau'n parhau o ran llenwi'r ddwy rôl sy'n weddill. Mynegodd aelodau eu pryderon am y sefyllfa, gan nodi'n benodol effaith prinder

aelodau Cyngor wrth ethol Cadeirydd newydd. Byddai'r Cyngor yn parhau i gael gwybod am ddatblygiadau ynghylch y rolau gwag.

9.4 Gan gyfeirio at baragraff chwech, rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i aelodau bod cyfweliadau wedi'u cynnal a bod trafodaethau'n parhau o hyd ynghylch recriwtio i swydd y Cyfarwyddwr Rheoleiddio yn sgil cyhoeddi y byddai Liz Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer*) yn ymddeol ar 31 Awst 2023.

9.5 Cyflwynodd y Cyngor fanylion y gweithgareddau a'r cyllid gofynnol am 2023-24 i Lywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2023 fel yr adroddwyd ym mharagraff wyth. Yn y blynyddoedd diwethaf, roedd hwn wedi'i roi mewn templed GOL, ond yn y dyfodol, byddai fformat gwahanol yn cael ei ddefnyddio. Ni chafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru eto.

9.6 Gan gyfeirio at baragraff 21, dywedodd y Prif Weithredwr fod y cyfarfod blynyddol, a gynhelir fel arfer ym mis Ionawr, rhwng y Gweinidog, y Prif Weithredwr a Chadeirydd y Cyngor, wedi'i ad-drefnu i'w gynnal ym mis Mehefin 2023. At hynny, roedd y Gweinidog wedi gwrthod y gwahoddiad blynyddol i gyfarfod â'r Cyngor ym mis Tachwedd 2023. Byddai'r Prif Weithredwr a Chadeirydd newydd y Cyngor yn trafod hyn gyda'r Gweinidog ym mis Mehefin.

9.7 Fel y dywedwyd ym mharagraff 30, byddai CGA yn cynnal ei ddosbarth meistr nesaf ar 16 Mai 2023, gyda'r Athro EJ Renold. Nododd y Prif Weithredwr fod y pwnc yn arbennig o amserol ac yn berthnasol i holl grwpiau cofrestreion y Cyngor, gyda rhyw 200 o docynnau'n cael eu cadw o fewn y 24 awr gyntaf o'u rhyddhau.

9.8 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad.

10. Cynlluniau Strategol, Gweithredol a Chynlluniau drafft cysylltiedig CGA CGA 02/23

10.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y gyfres o gynlluniau drafft i'r aelodau eu cymeradwyo. Nododd ddiolch yn benodol i Bethan Stacey (*Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi)* a thîm Polisi a Chynllunio CGA am y cynlluniau manwl.

10.2 Trafododd y Pwyllgor Gweithredol y gyfres o gynlluniau yn ei gyfarfod ym mis Ionawr ac fe'i cyflwynwyd nawr i'r Cyngor ei chymeradwyo. Yn dilyn diweddariad yn ddiweddar, cadarnhaodd Bethan Stacey na fyddai'r Cyngor yn darparu gwasanaeth ysgrifenyddiaeth i'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgu (NSERE) mwyach, oherwydd byddai Llywodraeth Cymru yn ei weinyddu'n fewnol.

10.3 Gan ymateb i ymholiad aelod ynghylch y diwygiadau penodol i'r gyfres, pwysleisiodd y Prif Weithredwr waith y Cyngor ynghylch cyfathrebu, gan nodi bod tîm profiadol ar waith yn y sefydliad erbyn hyn, yn arwain y maes gwaith hwn. Amlygodd yn benodol yr animeiddiadau newydd ar y wefan a phresenoldeb CGA ar y cyfryngau cymdeithasol.

10.4 Gan gyfeirio at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gofynnodd un aelod am eglurhad pellach ynghylch amcan amrywio'r gweithlu. Ymatebodd Bethan Stacey fod y Cyngor wedi gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yr oedd ei gyfarwyddeb yn berthnasol i bob sefydliad cyhoeddus yn genedlaethol. Esboniodd y weledigaeth hirdymor a nododd fod y Cyngor yn parhau i'w monitro trwy ei Grynodeb Ystadegau Blynyddol a thrwy ei wasanaeth eiriolaeth ac olrhain, sydd wedi'i wreiddio fel rhan o Addysgwyr Cymru.

10.5 I ymateb i ymholiad aelod ynghylch y gwahaniaeth rhwng amcanion CGA a chyflawniadau a wneir ar ran Llywodraeth Cymru, esboniodd y Prif Weithredwr fod angen adrodd ar yr agweddau hyn ar waith y Cyngor, a'u cofnodi, yn y Cynlluniau, at ddiben llywodraethu trylwyr.

10.6 A hithau'n ymateb i ymholiad aelod, nododd Bethan Stacey fod un ymateb wedi dod i law yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Strategol. Nododd fod cyfraddau ymateb rheoleiddwyr eraill hefyd yn fach wrth ymgynghori'n gyhoeddus ar eu Cynlluniau.

10.7 Gan ystyried awgrym aelod i amlinellu amcanion tymor hwy, nododd y Prif Weithredwr fod gwaith CGA wedi ehangu ac esblygu'n sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn ers ei gychwyn yn 2015. Teimlwyd bod y gwaith yn sefydlogi erbyn hyn ac, felly, roedd swyddogion yn rhagweld gweithredu Cynllun Strategol pum mlynedd, yn amlinellu amcanion tymor hir, tra'n adolygu a diweddaru'r Cynllun Gweithredol yn flynyddol.

10.8 Holodd un aelod am safiad y Cyngor ynghylch cynaliadwyedd ac awgrymodd y dylai hyn gael ei bwysleisio'n fwy trwy gydol y Cynlluniau. Nododd Bethan Stacey fod y Cyngor yn cyhoeddi Datganiad blynyddol ar Fioamrywiaeth a chytunwyd y byddai hwn yn cael ei gynnwys yn y Cynlluniau ac y byddai'r Cynlluniau'n cyfeirio ato.

10.9 Nododd y Prif Weithredwr y byddai rhai mân ddiwygiadau'n cael eu gwneud i'r Cynlluniau yn sgil y trafodaethau hyn. Cymeradwyodd aelodau'r gyfres, gan ddirprwyo'r mân ddiwygiadau i swyddogion.

11. Diweddaru cronfa ddata CGA **CGA 03/23**

11.1 Cyflwynodd Liz Brimble y papur hwn, a amlinellodd y cynnydd hyd yn hyn o ran uwchraddio cronfa ddata Cofrestru CGA.

11.2 Fel yr adroddwyd yn flaenorol, esboniodd y byddai'r prosiect hwn yn cael ei gyflawni fesul chwe cham, a fyddai'n cynnwys trafodaethau manwl ar y fanyleb gyda thimau, mudo data a phrofion helaeth, gyda'r bwriad i fynd 'yn fyw' ym mis Rhagfyr 2023. Roedd y prosesau cwmpasu ar gyfer gofynion gwaith cofrestru'r Cyngor, sefydlu statudol a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol wedi'u cwblhau, a byddai'r gofynion ar gyfer y gwaith Priodoldeb i Ymarfer yn cael eu hystyried nesaf.

11.3 Fel rhan o fudo data, byddai swyddogion yn ymgymryd â phroses drylwyr o lanhau data i sicrhau bod y data a gedwir gan y Cyngor yn gywir ac yn adlewyrchu arferion gweithio presennol cofrestreion. Gan ymateb i ymholiad gan aelod, cadarnhaodd Liz Brimble y byddai'r data'n cael ei gopïo o'r system bresennol i'r fersiwn wedi'i huwchraddio, felly ni fyddai unrhyw darfu ar y gwasanaeth.

11.4 Nododd Liz Brimble ei bod hi a Rheolwr Cymwysterau a Chofrestru CGA yn cyfarfod ag arweinwyr y prosiect bob pythefnos i drafod cynnydd. Nododd fod yr holl waith yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl.

11.5 Holodd un aelod am oblygiadau posibl ymddeoliad Liz Brimble ym mis Awst 2023, cyn cwblhau'r prosiect. Ymatebodd Liz Brimble fod Rheolwr Cymwysterau a Chofrestru CGA yn arwain y gwaith ar yr uwchraddio, gan ychwanegu bod ganddo ef a nifer o'r uwch dîm wybodaeth a phrofiad helaeth yn y maes hwn. Sicrhaodd hi'r Cyngor ymhellach y byddai'r Prif Weithredwr yn parhau i oruchwylio'r gwaith, o ystyried ei werth uchel a'i arwyddocâd.

11.6 Gan ymateb i ymholiad aelod ynghylch p'un a fyddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys aelodau'r Cyngor yn fuddiol i oruchwylio'r uwchraddio, nododd y Prif Weithredwr nad oedd hyn yn angenrheidiol gan mai uwchraddio gyda'r un cwmni oedd hyn, yn hytrach na phrosiect newydd neu system newydd. Pwysleisiodd hefyd brofiad ac arbenigedd y swyddogion sy'n arwain y prosiect o ran y maes gwaith hwn. Byddai'r Cyngor a'i Bwyllgorau'n parhau i gael gwybod am gynnydd yn y maes hwn drwy adrodd ym mhob cyfarfod.

11.7 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

12. Adroddiad cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu CGA 04/23

12.1 Cyflwynodd Liz Brimble yr adroddiad cynnydd hwn, a roddodd ddiweddariad i aelodau ar waith CGA yn gysylltiedig â Chofrestru a gweinyddu'r gwaith o ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu.

12.2 Adroddwyd bod proses adnewyddu ffioedd cofrestru 2023-24 ar waith, gyda 7 Ebrill 2023 yn ddyddiad olaf i gyflogwyr gyflwyno ffioedd i'r Cyngor. Anfonwyd neges atgoffa am adnewyddu at y 20,382 o gofrestreion sy'n talu eu ffioedd yn uniongyrchol ar 6 Chwefror 2023, ynghyd â chyfres o negeseuon atgoffa i dalu'r ffi erbyn 31 Mawrth 2023. Nododd fod tua 7,500 o'r adnewyddiadau hyn wedi'u cwblhau hyd yn hyn. Byddai'r broses ddatgofrestru flynyddol ar gyfer y rhai sy'n dewis peidio ag adnewyddu eu cofrestriad yn digwydd ar 12 Mai 2023.

12.3 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff wyth, atgoffwyd aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gategorïau cofrestru newydd ar gyfer CGA. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar 21 Mawrth 2023. Roedd swyddogion yn disgwyl gweld y Gorchymyn dan embargo cyn y byddai'n cael ei drafod gerbron cyfarfod llawn o'r Senedd ar 16 Medi 2023. Disgwyliwyd y byddai'r Gorchymyn yn cael ei osod ar 18 Mai 2023 cyn cael ei ddeddfu ar 22 Mai 2023.

12.4 Dywedodd Liz Brimble fod swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru (WISC) i ymgysylltu â'r sector ysgolion annibynnol yn wyneb y ddeddfwriaeth newydd ynghylch ymarferwyr yn y sector. Bu'r trafodaethau'n gadarnhaol a threfnwyd nifer o sesiynau gwybodaeth ar draws sefydliadau. Byddai sesiwn gan Gyfarwyddwr WISC yn cael ei chynnal hefyd yn ystod hyfforddiant blynyddol aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer i gynyddu eu dealltwriaeth o'r sector.

12.5 I ymateb i ymholiad gan aelod, nododd Liz Brimble fod swyddogion yn rhagweld y byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn arwain at ddwyn tua 2,000 o gofrestreion newydd i'r Gofrestr; 1,700 o ymarferwyr ysgolion annibynnol a 200-300 o ymarferwyr yn y sector gwaith ieuenctid.

12.6 Gan gyfeirio at baragraffau 16-17, holodd un aelod a fyddai unrhyw oblygiadau o ran cost i'r Cyngor a/neu i gofrestreion er mwyn ymgymryd ag ailddilysu. Esboniodd Liz Brimble fod ailddilysu yn broses ofynnol gan lawer o reoleiddwyr fel amod cofrestru. Roedd swyddogion wrthi'n gwneud ymchwil i'r mater hwn. Megis dechrau yr oedd yr ymchwil.

12.7 Cyfeiriodd Liz Brimble aelodau at yr Adroddiad Data ac Adrodd yn atodiad B ac, fel diweddariad i'r papur, nododd fod y cyhoeddiad data ar Arweinyddiaeth ac Athrawon Newydd Gymhwyso wedi'i gyhoeddi ar wefan CGA.

12.8 Roedd aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd a nodont ddiolch yn arbennig am y cynnydd cadarnhaol a wnaed o ran gweithredu'r categorïau cofrestru newydd.

13. Adroddiad cynnydd Addasrwydd i Ymarfer CGA 05/23

13.1 Cyflwynodd Liz Brimble yr adroddiad cynnydd hwn ar waith Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor a materion gweithdrefnol cysylltiedig.

13.2 Fel y dywedwyd ym mharagraff dau, roedd swyddogion wedi cael 60 o atgyfeiriadau cyflawn ac roedd 25 wrthi'n cael eu hasesu am eu cyflawnder. Dywedodd fod nifer o ymholiadau'n mynd rhagddynt hefyd gyda'r amrywiol heddluoedd, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chyflogwyr.

13.3 Gan gyfeirio at baragraff pump, adroddwyd fod 37 o wrandawiadau wedi'u cwblhau a bod 21 arall wedi'u trefnu. Er eu bod islaw'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn, roedd yr holl achosion wedi'u cwblhau yn unol â'r amserlen ac nid oedd achosion wedi cronni ac angen eu cwblhau. At hynny, oherwydd amryw gymhlethdodau gydag achosion, nifer diwrnodau'r gwrandawiadau ar gyfer 2022/23 oedd 74.

13.4 Cyfeiriwyd aelodau at baragraffau 11 a 12, a adroddodd fod 174 o achosion addasrwydd i gofrestru wedi'u hasesu er 1 Ebrill 2022. Rhoddwyd canlyniad yr holl asesiadau a gwblhawyd hyd yn hyn yn atodiad B. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, roedd 11 Pwyllgor Addasrwydd wedi cyfarfod, gan arwain at wrthod 4 cais, caniatáu 5 a gohirio 2.

13.5 Rhoddwyd gwybod i aelodau fod swyddogion wedi parhau i gyflwyno nifer uchel o sesiynau hyfforddiant a chyflwyniadau ar gais rhanddeiliaid. Fel y dywedwyd ym mharagraff 17, cwblhawyd 57 sesiwn er 1 Ebrill 2022, sef 11 yn fwy na'r llynedd. Roedd ymholiadau a cheisiadau ychwanegol yn parhau i gyrraedd oddi wrth sefydliadau ym mhob categori cofrestru.

13.6 Fel y dywedwyd ym mharagraff 19, lansiwyd recriwtio aelodau panel lleyg ychwanegol ar 24 Chwefror 2023 a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud ceisiadau oedd 31 Mawrth 2023. Dywedodd Liz Brimble fod 5 cais wedi cyrraedd hyd yn hyn.

13.7 I ddiweddaru paragraff 22, dywedodd Liz Brimble y byddai hyfforddiant blynyddol aelodau panel yn digwydd yn rhithwir yn hytrach nag wyneb yn wyneb oherwydd mai prin a drud oedd y llety a oedd ar gael i fynychwyr, oherwydd bod digwyddiad mawr yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd ar yr un pryd.

13.8 Gyda thymor y Cyngor presennol yn dod i ben, gwahoddodd y Cadeirydd aelodau i ystyried gwneud cais am rôl aelod panel Addasrwydd i Ymarfer yn y dyfodol. Nododd fod cynghorwyr cyfreithiol y Cyngor wedi dweud y dylid gadael bwlch o 5 mlynedd ar ôl bod yn aelod o'r Cyngor cyn bod yn gymwys i wneud cais.

13.9 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

14. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon CGA 06/23

14.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, a roddodd adroddiad cynnydd i aelodau ar rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru.

14.2 Rhestrodd paragraff saith y rhaglenni a fu'n destun monitro interim fel amod achredu. Rhannwyd canlyniadau gyda Phartneriaethau yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y canllaw monitro interim.

14.3 Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Cyngor, ystyriwyd nad oedd rhaglen un Bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Meini Prawf, yn dilyn ymweliad monitro ym mis Gorffennaf 2022. Cyflwynodd y Bartneriaeth gynllun gweithredu dilynol i fynd i'r afael â'r materion hyn ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd. Roedd y mater yn mynd rhagddo o hyd a byddai'r Cyngor yn cael gwybod am ddatblygiadau pellach.

14.4 Holodd aelodau am y camau gweithredu y byddai'r Bwrdd yn eu cymryd a'r effaith ar fyfyrwyr os ystyriwyd nad oedd rhaglen yn cydymffurfio. Cadarnhaodd Bethan Stacey y gellid rhoi'r gorau i achredu pe na byddai'r Meini Prawf yn cael eu bodloni ac y byddai cynllun ymadael yn cael ei lunio.

14.5 Fel y dywedwyd ym mharagraff 16, roedd Llywodraeth Cymru'n ymgymryd ag adolygiad o'r Meini Prawf a'u hadnewyddu. Ni fyddai'r weledigaeth wrth wraidd y Meini Prawf yn newid a byddai'r adolygiad yn canolbwyntio ar newidiadau technegol i wella cymhwyso'r meini prawf ac i ystyried blaenoriaethau polisi penodol Llywodraeth Cymru. Roedd yr adolygiad yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio, yn cynnwys cynrychiolwyr o CGA, Dr Hazel Hagger, Cadeirydd y Bwrdd Achredu AGA, yr Athro John Furlong, ynghyd â chynrychiolwyr Estyn ac USCET Cymru. Gan ymateb i ymholiad gan aelod, cadarnhaodd Bethan Stacey mai Llywodraeth Cymru oedd yn berchen ar y Meini Prawf ond fe'u lluniwyd a'u hadolygwyd mewn ymgynghoriad â'r sector ac arbenigwyr perthnasol yn y maes.

14.6 Cyfeiriodd Bethan Stacey aelodau at atodiad A a gofynnodd i'r Cyngor adolygu ac, os oedd yn briodol, cymeradwyo'r polisi ffioedd diwygiedig. Amlygodd nifer o newidiadau allweddol yn gysylltiedig â'r polisi presennol, y mae esboniad ohonynt yn adran 'diwygiadau' yr atodiad.

14.7 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd a chymeradwyo'r polisi diwygiedig ar godi ffioedd.

15. Sefydlu Statudol a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol CGA 07/23

15.1 Cyflwynodd Bethan Stacey yr adroddiad ac estynnodd wahoddiad i'r aelodau nodi'r cynnydd yng ngwaith y Cyngor wrth weinyddu trefniadau cyllido, olrhain a chofnodi ar gyfer Sefydlu athrawon ysgol, ynghyd â'r cynnydd wrth sefydlu a gwreiddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ar ran Llywodraeth Cymru.

15.2 Fel y dywedwyd ym mharagraff dau, parhawyd i gwblhau pob gweithgarwch yn unol â thelerau ac amodau targedau cyflawni grantiau. Nododd ymhellach fod archwiliad mewnol o weinyddu'r rhaglen sefydlu wedi'i gwblhau ym mis Tachwedd 2022 a chanlyniad hynny oedd barn sicrwydd sylweddol ac ni chodwyd argymhellion.

15.3 Fel y dywedwyd ym mharagraff pedwar, neilltuwyd cyllid o £5,200,000 yn llythyr y Cynnig Grant ar gyfer gweinyddu rhaglen sefydlu 2022-23, ond amcangyfrifodd swyddogion y byddai'r gwaith uwchlaw lefel y grant hwn. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno'n flaenorol y gallai CGA droi atynt am adendwm pe bai'r senario hyn yn codi ac, felly, gwnaed cais gan CGA. Ar 31 Ionawr 2023, anfonodd Llywodraeth Cymru adendwm i lythyr y Cynnig Grant ar gyfer 2022-23 at CGA yn cadarnhau'r cyllid ychwanegol, gan godi cyfanswm y cyllid a neilltuwyd i £6,200,000.

15.4 Wrth roi diweddariad i aelodau am weithredu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP), cadarnhaodd Bethan Stacey fod y Pasbort wedi'i wreiddio mewn nifer o raglenni dysgu proffesiynol cenedlaethol a rhanbarthol fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 19-20. Roedd nifer o ysgolion hefyd wedi cysylltu â'r Cyngor i geisio cymorth â sefydlu'r PDP ar sail ysgol gyfan i gynorthwyo staff â'u dysgu proffesiynol parhaus.

15.5 Dywedodd Bethan Stacey fod gwaith datblygu ar raddfa fawr a wneir gan ddarparwr meddalwedd y PDP, PebblePad, yn mynd rhagddo'n dda ac roedd disgwyl y byddai'n dod i ben erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, fel yr adroddwyd ym mharagraff 21.

15.6 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad diweddaru.

16. Hyrwyddo gyrfaoedd ym myd addysg CGA 08/23

16.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn ac esboniodd mai un o brif swyddogaethau CGA o dan y Ddeddf Addysg (Cymru) oedd hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu addysg.

16.2 Fel y dywedwyd ym mharagraff 2, roedd nifer o ddatblygiadau meddalwedd yn mynd rhagddynt ac roedd y deilliannau ar y trywydd cywir. Amlygodd yn benodol y 'feddalwedd pry cop', gan nodi bod swyddogaeth wedi'i gwreiddio gan saith awdurdod lleol a olygai bod swyddi gwag a hysbysebwyd ar eu gwefannau yn cael eu dyblygu a'u hysbysebu ar Addysgwyr Cymru. Roedd gwaith yn parhau gydag awdurdodau lleol eraill a cholegau AB.

16.3 Gan gyfeirio at baragraff pump, dywedodd Bethan Stacey ei bod hi wedi dod i'r amlwg bod rhai problemau wedi codi rhwng y partneriaid yn un o gontractau CGA. Roedd swyddogion wrthi'n gweithio gyda'r naill barti a'r llall i ddatrys y materion ac i sicrhau bod gwaith CGA a roddwyd dan gontract iddynt mewn partneriaeth yn cael ei gyflawni.

16.4 Roedd y Cyngor yn fodlon nodi'r cynnydd a amlinellwyd yn yr adroddiad.

17. Adroddiad ar Safonau Proffesiynol a phrosiectau tymor byr eraill Llywodraeth Cymru CGA 09/23

17.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, a roddodd ddiweddariad ar nifer o brosiectau y mae CGA yn ymgymryd â nhw ar ran Llywodraeth Cymru.

17.2 Dywedodd fod yr holl brosiectau ar y trywydd cywir i'w cwblhau o fewn yr amserlenni cymeradwy. Cytunwyd â Llywodraeth Cymru y byddai gwaith CGA ar y Safonau Proffesiynol a'r Silwetau ar gyfer athrawon AB ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yn parhau yn y flwyddyn ariannol newydd i hwyluso ymgynghoriad ehangach, y cytunwyd arno gan y Grŵp Llywio a gyfarfu ddiwethaf ar 6 Chwefror 2023.

17.3 I ymateb i ymholiad aelod ynghylch nifer y prosiectau a wnaed gan CGA ar ran Llywodraeth Cymru, cadarnhaodd Bethan Stacey fod y grant a gafwyd i gwblhau'r gwaith yn cael ei ddyfarnu'n benodol i'r ffrwd waith.

17.4 Roedd aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad cynnydd.

18-21. Eitemau er gwybodaeth

Derbyniodd yr aelodau bapurau "er gwybodaeth" ar y canlynol:

- **Adolygiad chwarterol (1 Medi – 31 Rhagfyr 2022) (CGA 10/23)**
- **Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (CGA 11/23)**
- **Ysgrifenyddiaeth i'r IWPRB (CGA 12/23)**
- **Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol (CGA 13/23)**

22. Unrhyw fater arall

22.1 Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad byr i'r Cadeirydd i ddiolch iddi am ei chefnogaeth a'i chyfraniad yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd cyntaf CGA ac fel cyn aelod a Chadeirydd CyngACC. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyngor a'i swyddogion, a thalodd deyrnged arbennig i'w chyd-aelod hirsefydledig, Jane Setchfield.

22.2 Ni chodwyd unrhyw fater arall a daeth y cyfarfod cyhoeddus i ben.

Symudodd y Cyngor i sesiwn breifat